Adroddiad ar yr amserlen ar gyfer ystyried Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)

Tachwedd 2016

01. Ar 7 Tachwedd 2016, cafodd Bil Llywodraeth, Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru), ei gyflwyno yn y Cynulliad.

02. Ar 11 Hydref 2016, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 26.9, i gyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon er mwyn iddo ystyried yr egwyddorion cyffredinol a chyflwyno adroddiad arnynt.

03. Ar 1 Tachwedd 2016, yn unol â Rheol Sefydlog 26.7, trefnodd y Pwyllgor Busnes amserlen i'r Pwyllgor ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil a chytunodd y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad erbyn 10 Chwefror 2017.

04. Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylid cwblhau trafodion Cyfnod 2 erbyn 7 Ebrill 2017, ar yr amod bod y Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil.